O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2009 Rhif 2939 (Cy.256)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2009 ("y Prif Reoliadau") yn dirymu ac yn ailddeddfu gyda newidiadau Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2007 (O.S. 2007/840 (Cy.73), fel y'i diwygiwyd).

Mae'r Prif Reoliadau, yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1881/2006 sy'n pennu'r lefelau uchaf a ganiateir ("LUGau") o halogion mewn deunyddiau bwyd (OJ Rhif L364, 20.12.2006, t.5).

Maent yn darparu hefyd ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 124/2009 (OJ Rhif L40, 11.2.2009, t.7) sy'n ymwneud â'r LUGau o ychwanegion penodol at fwyd anifeiliaid y gellir eu cael o dan amgylchiadau penodedig mewn bwyd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 2(1) o'r Prif Reoliadau, i gywiro gwall argraffyddol yn y testun Cymraeg.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2939 (Cy. 256)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009

*Gwnaed* *2 Tachwedd 2009*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *5 Tachwedd 2009*

*Yn dod i rym* *27 Tachwedd 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a) ac 17(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009, ac y maent yn dod i rym ar 27 Tachwedd 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2009

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2009(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn nhestun Cymraeg rheoliad 2(1), yn lle "Rhif XXX/2008" rhodder "Rhif 124/2008".

(**1**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adrannau 16 a 17 gan Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28) ("Deddf 1999").

Trosglwyddwyd swyddogaethau, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/1972) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) Ddeddf 1999. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 2009/1386 (Cy.142).

*Gwenda Thomas*

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol
o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru

2 Tachwedd 2009